

## O Feiro i Gyfrifiadur

Mae'r broses o ysgrifennu wedi newid yn arw dros amser – o bapur a beiro a LOT o *liquid paper*, i gyfrifiadur a chopio'r gwaith ar ddisg. "Ond heddiw, mae e-bostio yn gymaint haws. Bu'n fraint cydweithio efo arlunydd mor dalentog â Jac Jones hefyd. Mae diwyg llyfr mor bwysig."

Rhwng bod yn wraig ffarm, yn fam a nain, a rhoi gwersio piano i lawer dros

y blynyddoedd, roedd bywyd yn hynod o brysur. "Mi fuo Tom, fy ngŵr mor gefnogol. Roddodd o erioed bwysau arna' i." Dydi hi ddim wedi cyhoeddi llyfr ers saith mlynedd bellach. Ers colli Tom, dydi hi ddim wedi ail afael yn yr ysgrifennu o ddiifri. "Mae codi allan i gymdeithasu yn bwysicach i mi rwan rhywsut, ond pwy a wŷr, rhyw ddiwrnod, efallai ..."

## Gwobr Tir-Na-Nog

1984	Y Llinyn Arian
1990	Llygedyn o Heulwen
1996	Coch yw Lliw Hunllef
2007	Ein Rhyfel Ni

## Gwobr Mary Vaughan Jones

2006

## *Dodi'n nabod aelod o Glwb Gwawr*

# ELIN ANGHARAD

Cysylltydd Clwb Gwawr Llygaid y Dydd

### *Beth yw dy hanes Elin?*

Cefais fy magu yn Yr Wyddgrug a mynychu ysgolion Glanrafon a Maes Garmon yn y dref, wedi byw am bron i bedair blynedd cynta fy mywyd yn Lerpwl. Wedi graddio o Brifysgol Bangor a dilyn cwrs Newyddiaduraeth yno, fe wnes i aros yn y ddinas a dechrau gweithio i Adran Newyddion BBC Cymru. Ond fe ddaeth y gwaith â fi i Gaerdydd a dwi'n byw yma ers un mlynedd ar bymtheg bellach. Erbyn hyn dwi'n gynhyrchydd gyda rhaglenni newyddion Radio Cymru yn gweithio ar *Y Post Cyntaf* a *Taro'r Post*



Elin Angharad

yn bennaf. Mae'n waith amrywiol iawn a straeon difyr i'w dilyn bob dydd. Mae criw da yn gweithio yn yr adran ac mae na dipyn o hwyl i'w gael. Cyn y swydd yma fe fues i'n gweithio am dair blynedd ar ddeg i wasanaeth newyddion arlein BBC Cymru yn ysgrifennu amrywiol erthyglau'n ddyddiol.

### *Beth yw dy ddi-ddordebau?*

Dwi wrth fy modd yn darllen nofelau neu hunangofiannau a mynd i'r theatr. A dweud y gwir mae na sawl theatr yng Nghaerdydd ac rydym yn ffodus iawn o gael y fath ddewis. Fe allwn i fod yn mynd i weld rhywbeth bob nos yma! Dwi hefyd yn

mwynhau gwaith crefft, yn bennaf gwnïo a chreu cardiau. Dwi wedi bod yn gwnïo ers yn ddim o beth ac yn gwneud dipyn o waith croesbwyth. Mae'n debyg mai'r peth dwethaf wnes i oedd sampler i fy nai Twm Emyr ar ei benblwydd cyntaf a gan fod ei frawd, Wil Emyr, wedi cyrraedd erbyn hyn, dyna fydd y dasg nesaf mae'n siwr - un iddo fo!

### *Beth wyt yn hoffi gwneud yn dy amser sbâr?*

Dwi'n mwynhau amrywiaeth o chwaraeon ac yn mwynhau gwyllo rygbi a pêl droed. Anodd iawn eu methu yn y brifddinas 'ma! Dwi'n cefnogi tim pêl droed Lerpwl, a Chymru wrth gwrs. Mae gen i docyn tymor i weld Cymru ac wrth fy modd yn eu gwyllo. Dwi'n falch iawn o'u llwyddiant ym mhencampwriaeth rhagbrofol Ewro 2016, a dwi wedi bod dramor yn ddiweddar i'w cefnogi, gan gynnwys i Glasgow, Amsterdam a Gwlad Belg. Dwi'n mwynhau teithio ac mae cyfuno'r pêl droed â'r teithio yn gyfleus iawn!

### *Sut ddaethost ti'n aelod o Glwb Gwawr?*

Dwi'n aelod o Glwb Gwawr Llygaid y Dydd ers y cychwyn nôl yn 2008 ac wedi dal sawl rôl o fewn y clwb. Doedd na ddim clwb yn y brifddinas ar y pryd a phan ddaeth y cyfle i gychwyn, roeddwn yn teimlo y byddai'n gyfle i gymdeithasu a dod i nabod mwy o ferched yn y ddinas. Dwi wedi gwneud ffrindiau da drwy'r clwb ac yn mwynhau mynd i'r gweithgareddau bob mis. Yn ogystal â chyfle i greu ffrindiau newydd, mae hefyd yn ffordd o wneud gweithgareddau falle na fyddwn i wedi eu trio cynt! Rydym yn griw bach hwyliog o ferched sy'n barod i fentro, yn ogystal â chael cyfle i sgwrsio a chymdeithasu.

## Merched y Wawr Croesoswallt

Yn ein cyfarfod mis Mai, cyflwynwyd blodau a llongyfarchion i Olwen James, ein haelod hynaf, yn gant oed ddiwedd Mai. Yn enedigol o Flaenau Ffestiniog, mae Olwen wedi byw yng Nghroesoswallt am hanner can mlynedd, ac yn aelod



Olwen James

ffyddlon o Gapel Seion ac o Ferched y Wawr. Mae'n mwynhau iechyd da, mor ifanc a heini ei hysbryd, ac wedi gweld cymaint o newidiadau yn ei hoes. Llongyfarchion Olwen gan eich cyd-aelodau oll!

## DIOLCH

Yn rhifyn 182 o'r *Wawr*, (Gwanwyn 2014) holodd Cynthia Edwards (Cangen Llanafan) am wirfoddolwyr o ddysgwyr i lenwi holiaduron iddi ar eu profiad o ddyllanwad Merched y Wawr ar eu gallu i siarad Cymraeg. Hoffai ddiolch o galon i bob aelod a gyfrannodd at ei phrosiect ymchwil trwy lenwi'r holiaduron ac i'r rhai a gytunodd i gyfweiliadau. Llwyddodd, gan dderbyn gradd BA ym mis Gorffennaf. 'Diolch i'm cyfeillion ym MyW yn lleol a chenedlaethol, am eu cymorth i wireddu'm cynlluniau. Rwy'n bwriadu paratoi erthygl ar y gwaith a'i ganlyniadau erbyn rhifyn nesaf *Y Wawr*.'